Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Brynffordd

**Brynffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 8AD**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Brynffordd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Brynffordd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 82 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 60 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 7.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 13.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Mawrth 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/12/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Brynffordd yn fawr iawn. Mae hyn oherwydd bod eu hathrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar eu cyfer sy'n gwneud dysgu yn gyffrous ac yn hwyl. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, creadigol ac uchelgeisiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda. Maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus o oedran cynnar.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn ofalgar, yn oddefgar ac yn barchus tuag at ei gilydd ac at oedolion. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod bod staff yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. Mae staff wedi gweithio'n galed i greu'r ethos pwyllog ac anogol hwn, sy'n cyfrannu at ddysgu effeithiol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu a darpariaeth ychwanegol sy'n diwallu anghenion a diddordebau addysgol ac ehangach y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad â'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn bwrpasol ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destunau go iawn. Mae ystafelloedd dosbarth a gofodau awyr agored yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol a gweithgar lle mae disgyblion yn mwynhau digonedd o gyfleoedd i gydweithio mewn parau a grwpiau bach.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweinyddiaeth effeithlon a chefnogol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, ac fel tîm, yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. O ganlyniad, ceir ethos ysgol gyfan effeithiol ac ymdeimlad o waith tîm lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Mae'r ysgol yn dda yn nodi'r meysydd o'i gwaith sydd fwyaf effeithiol a'r agweddau hynny y mae angen eu gwella. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i osod uchelgeisiau clir ar gyfer cyfeiriad yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, a phenderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ymateb i dasgau dysgu

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r pandemig wedi arafu’r cynnydd hwn ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol ac yn cyflawni’n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu yn dda. Mae disgyblion iau yn gwrando â diddordeb cynyddol ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau amser estynedig. Maent yn cyfleu eu hanghenion a’u meddyliau yn hyderus yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae, er enghraifft wrth drafod eu gwaith ar greu blwch byrbryd i’w werthu yn y Ffair Nadolig. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gynyddol huawdl. Mae disgyblion hŷn yn gwrando’n bwrpasol i gael gwybodaeth, er enghraifft wrth drafod rhinweddau cymharol gwisgo gwisg ysgol. Maent yn cynnig barn o’u gwirfodd, gan roi rhesymau am eu hatebion, ac yn trafod eu gwaith yn ystyriol mewn parau ac mewn grwpiau, ac yn cyfathrebu’n dda i gyflawni tasgau, er enghraifft wrth weithio gyda deunyddiau naturiol yn yr awyr agored.

Mae disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a’u hail-ddweud wrth ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml ond sy’n briodol i gyfnod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, ac yn hapus i fynd i’r afael â geiriau anghyfarwydd gydag amrywiaeth o strategaethau. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn ac yn datblygu ystod dda o strategaethau i fod yn ddarllenwyr rhugl, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, teuluoedd geiriau, cystrawen a gwybodaeth flaenorol am gyd-destun. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn darllen testunau gydag ychydig o gliwiau gweledol, yn annibynnol a thrwy ganolbwyntio am gyfnodau cynaledig. Maent yn dewis y prif bwyntiau o destunau ac yn nodi sut caiff gwybodaeth a thystiolaeth eu defnyddio i’w cynorthwyo. Mae llawer ohonynt yn ‘darllen rhwng y llinellau’ yn llwyddiannus gan ddefnyddio rhesymu a dod i gasgliad. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol i gefnogi eu dealltwriaeth mewn gwahanol feysydd dysgu, er enghraifft wrth ymchwilio i fywyd Anne Frank a’i dyddiadur.

O oedran ifanc, mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd am ysgrifennu wrth arbrofi â chreu marciau. Maent yn mynd ymlaen i ysgrifennu ag annibyniaeth a rhuglder cynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn effeithiol, ac yn datblygu eu syniadau yn greadigol ac yn ddychmygus wrth ysgrifennu cerdd am y cynhaeaf, er enghraifft. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy’r ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o nodweddion gwahanol genres. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu’n graff at ystod eang o ddibenion. Maent yn dewis geiriau’n ofalus i ymestyn eu hysgrifennu i’r darllenydd, er enghraifft wrth ysgrifennu am brofiadau faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynllunio, yn drafftio ac yn

gwella'u gwaith yn drylwyr i gynhyrchu ysgrifennu strwythuredig o ansawdd uchel, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at y Prif Weinidog am effaith newyn ledled y byd.

Mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion wedi cael ei rwystro'n rhannol gan golli cyfleoedd dysgu yn deillio o bandemig Covid-19. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau dosbarth gan yr athro, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cyfarchion syml ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau am y tywydd, er enghraifft. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn ateb gydag ymatebion sylfaenol yn ystod trafodaethau ag athrawon, a gyda'i gilydd, er enghraifft wrth rannu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau Cymraeg mor ddatblygedig ag y gellid ei ddisgwyl. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon hyderus ym meysydd eraill y cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. O oedran cynnar, mae disgyblion yn meithrin ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau heriau mathemateg, gan ymgymryd â gemau cyfrif a gweithgareddau paru yn frwdfrydig. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan lawer ohonynt afael gadarn o ffeithiau rhif i 100, maent yn adnabod siapiau, yn defnyddio arian wrth iddynt chwarae ac yn datblygu hyder wrth ddweud yr amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn gweithio'n dda gyda phedair rheol rhif, siâp a mesur ac yn datblygu medrau cadarn wrth drin data. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda i ddatrys problemau, er enghraifft wrth drafod cost bwydydd cyflym amrywiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn fedrus i gyfrifo yn eu pennau ac ar bapur wrth ddatrys problemau. Maent yn disgrifio eu medrau meddwl a rhesymu yn dda, ac yn esbonio sut maent wedi dod i gasgliadau, er enghraifft wrth gyfrifo'r elw a'r golled bosibl wrth greu addurniadau Nadolig i'w gwerthu yn y Ffair Nadolig. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd ar lefel debyg mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Yn ystod cyfnodau clo, defnyddiodd athrawon amrywiaeth o dechnolegau yn dda i gefnogi disgyblion i ddysgu gartref. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar fedrau digidol disgyblion. O oedran cynnar, mae disgyblion yn awr yn cymhwyso'r medrau hynny mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i gofnodi eu dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglen animeiddio i adrodd y stori am eu draig goch. Maent yn rheoli tegan digidol yn llwyddiannus i symud i leoliadau penodol ar fap. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn dda i gefnogi ymchwil annibynnol, ac ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymchwilio ac yn cyflwyno gwybodaeth am anifeiliaid amrywiol i gefnogi eu gwaith ar Affrica. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o gymwysiadau a rhaglenni yn hyderus, er enghraifft i rannu nodweddion amrywiol eu pentref gyda disgyblion o ysgolion eraill.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd ac ymwelwyr. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eu ffrindiau a'u hathrawon yn ei ddweud ac yn ymateb i'w syniadau yn ystyriol. Mae'r rhan fwyaf

o ddisgyblion yn cydweithio'n dda wrth weithio mewn parau a grwpiau. Maent yn cyd-chwarae, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda, wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn rhydd rhag problemau bwlio. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda gan staff, yn gwybod ble i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â thestunau'r dosbarth. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymgyfarwyddo'n gyflym fel rhan o drefn y bore i ddewis tasgau mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol ac yn bwrpasol. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda â'u tasgau ac yn gweithio'n briodol mewn parau a grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda, yn osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw, ac yn cwblhau eu tasgau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol, yn gallu cynllunio a chwblhau tasgau â chymorth cyfyngedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cynllunio eu testunau tymhorol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn arddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad â'u gwaith. Dangosant allu cynyddol i gyd-gynllunio a mynegi barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu o oedran cynnar. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth gan staff a'u cyfoedion i wella'u gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. Mae disgyblion hŷn yn gwneud defnydd cynyddol o hunanasesu ac asesu cyfoedion ac yn awyddus i wneud newidiadau i'w gwaith. Mae hyn yn gwella eu hunanhyder ac yn cefnogi eu cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ba mor dda y maent yn gwneud cynnydd â'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a phwyllgorau llais y disgybl, er enghraifft y cyngor ysgol a phwyllgorau eco. Wrth iddynt ymgymryd â'r rolau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus ac yn gallu esbonio ble mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd ysgol. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am ddylanwad y pwyllgor eco wrth arbed ynni a datblygu tir yr ysgol. Maent yn deall sut mae'r mentrau hyn yn helpu'r amgylchedd. Mae'r Arweinwyr Digi yn frwdfrydig iawn am eu gweithgareddau a'u cyfrifoldebau, er enghraifft wrth gefnogi thema 'Cerdded Anturus' yn seiliedig ar lwybr yr arfordir.

Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth eang o amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft trwy ddysgu am wahanol grefyddau. Maent yn dechrau deall rhai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, fel y problemau sy'n cael eu hachosi i'r amgylchedd gan wastraff a newyn mewn ardaloedd o gwmpas y byd. Maent yn falch o'u hymdrechion i gefnogi elusennau cenedlaethol a lleol, fel clwb bwyd yr eglwys leol. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach, ac maent yn helpu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein; er enghraifft, maent yn gwybod na ddylen nhw rannu eu cyfrineiriau. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod am bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn siarad yn wybodus am ddewisiadau bwyd iach ar gyfer byrbrydau a'r angen i yfed dŵr yn rheolaidd. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, gan gynnwys eu hunain yn weithredol mewn ystod o weithgareddau, fel y filltir ddyddiol, yn ystod y diwrnod ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar y cyd ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n gweithio'n dda i ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae gweledigaeth yr ysgol yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol yn dda, ac mae staff yn cynllunio'n effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol, er enghraifft trwy eu gwaith ar lwybr yr arfordir.

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus, ac mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol a dychmygus ar gyfer yr holl ddisgyblion. Maent yn dylunio'r cwricwlwm mewn ffordd fyfyriol a chydweithredol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i nodi sut maent yn disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd ar draws y cwricwlwm, a'r dysgu maen nhw eisiau iddynt ei gyflawni. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant yn nysgu disgyblion ar draws yr ystod oedran. Maent yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd eu hymagwedd at y cwricwlwm i sicrhau ei fod yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion.

Mae'r cynllunio'n sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu o fewn y dosbarth ac yn yr ardal awyr agored, fel ei gilydd. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu; er enghraifft, mae disgyblion yn cwblhau mapiau cysyniad i archwilio syniadau ar gyfer testunau, ac yn rhannu cwestiynau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a diddordeb ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu, er enghraifft yn eu gwaith ar safleoedd tirlenwi. Maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymhwyso eu medrau darllen ar lefel uwch, er enghraifft wrth wneud gwaith ymchwil gan ddefnyddio cyfrifiad 2021. Ar draws yr ystod oedran, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau digidol i gefnogi eu dysgu ehangach. Maent yn herio disgyblion i ddefnyddio eu medrau ymchwil, er enghraifft i gefnogi eu dysgu am Affrica. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio cyfleoedd digonol i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu am eu hardal gan

ddefnyddio'r llwybr arfordirol cyfagos. Mae staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol, ac fe gaiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n dda yn weledol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio geirfa Gymraeg yn briodol yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft i roi cyfarwyddiadau i'w disgyblion. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fodelu'r iaith neu annog y disgyblion i siarad, gofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Mae pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion ac yn creu amgylchedd dysgu cynnes, pwrpasol, tawel a chefnogol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn eu hannog i wneud eu gorau. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gweithio cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn gallu gofyn cwestiynau os bydd angen cymorth arnynt â'u dysgu.

Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc gyfoes dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu disgyblion. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn briodol. Maent yn sicrhau bod cyflymdra addas i ddysgu bron ym mhob achos. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion, ac maent yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn gwneud defnydd da o holi i symud dysgu disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth, yn unol ag anghenion disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol. Yn yr ychydig ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae athrawon yn tueddu i arwain gweithgareddau yn ormodol, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu drostyn nhw eu hunain sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith eu hunain yn effeithiol.

Mae pob un o'r athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i'w disgyblion ac yn ymyrryd yn sensitif ar adegau priodol yn ystod y wers i gynorthwyo disgyblion a rhoi adborth effeithiol wrth iddynt weithio. Mae staff yn defnyddio asesiadau ysgol yn effeithiol i nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu a chynllunio darpariaeth a chymorth priodol, er enghraifft trwy sicrhau ymyrraeth o ansawdd da o ran llythrennedd a rhifedd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd a'r gymuned leol yn dda iawn ac wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn derbyn gofal. Mae'r ffocws cryf hwn ar wella lles disgyblion yn agwedd allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at hapusrwydd a lles disgyblion. Mae hyn wedi bod yn fuddiol iawn yn ystod y pandemig. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael amser i siarad os ydynt yn orbryderus neu'n anhapus, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am unrhyw bryderon personol a allai fod ganddynt.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, ac mae ganddi systemau datblygedig ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol ac wedi gweithio'n dda i gyflwyno'r trefniadau cenedlaethol newydd o ran anghenion dysgu ychwanegol. Mae prosesau clir i nodi disgyblion sydd angen cymorth, i gynllunio ymyriadau a gwerthuso effaith y gwaith hwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn magu hyder ac yn dangos brwdfrydedd o'r newydd tuag at ddysgu, yn ogystal â dangos gwelliant nodedig mewn medrau cymdeithasol wrth iddynt weithio tuag at eu targedau personol. Mae staff cymorth yn darparu cymorth o ansawdd da ar gyfer rhaglenni i ddatblygu lles emosiynol disgyblion, a'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol i gynllunio camau nesaf disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae amgylchedd yr ysgol ac addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad moesol, moesegol ac ysbrydol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn darparu cyfleoedd cynlluniedig rheolaidd i ddisgyblion ddarganfod am nodweddion gwahanol grefyddau a myfyrio ar gwestiynau sylfaenol, a myfyrio ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hawliau plant. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o degwch, cydraddoldeb a chynhwysiant yn eu bywydau bob dydd. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried barn pobl eraill yn sensitif, cydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel parch, goddefgarwch a gofalu.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a dychmygus. Maent yn annog disgyblion i fyfyrio ar waith artistiaid enwog ac yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion efelychu gwaith artistiaid amgylcheddol yn yr awyr agored. Maent yn darparu cyfleoedd dawnsio a chwarae rôl rheolaidd fel rhan o'r cwricwlwm, yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynyrchiadau a sioeau dramatig. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio a datblygu medrau creadigol, yn ogystal â magu eu hyder. Mae staff yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd, er enghraifft lle mae disgyblion yn mynd ati'n frwdfrydig i greu addurniadau i'w gwerthu yn y Ffair Nadolig.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ohebiaeth a'r arweiniad a roddir gan staff ynghylch dysgu a lles eu plant. Yn sgil gohebiaeth a 'gwiriadau' rheolaidd gyda theuluoedd yn ystod cyfnodau clo, cryfhawyd y perthnasoedd cryf sy'n bodoli rhwng y staff, y disgyblion a'r rhieni ymhellach. Mae rhieni'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn aml, maent yn cael eu gwahodd i weithgareddau a digwyddiadau amrywiol ochr yn ochr â'u plant, ac yn cymryd rhan ynddynt. Ymgynghorir â nhw am faterion sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant gartref.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydweithio â'i chymuned leol ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i'r disgyblion elwa ar feithrin perthnasoedd â gwahanol sefydliadau a gweithgareddau, fel yr eglwys leol, swyddog cyswllt yr heddlu, canu carolau, cydweithio ag ysgolion lleol eraill, pwyllgor 'Ffrindiau Brynffordd', a digwyddiad criced lleol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerth chweil i fod yn aelodau o gynghorau amrywiol. Mae staff yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion wneud penderfyniadau

am sut i wella eu hysgol. Mae pob un o'r athrawon yn holi barn disgyblion am destunau dosbarth a sut i ddatblygu eu hamgylchedd dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar ymarfer corff fel rhedeg 'milltir ddyddiol'. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn cymell disgyblion i gadw'n heini a dyfnhau eu dealltwriaeth o fyw yn iach.

Mae'r diwylliant diogelu yn gadarn, ac mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ar waith i hyrwyddo presenoldeb da disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu rheolaidd â rhieni, a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol, sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus, yn ogystal ag amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae ganddi weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar sicrhau mai lles disgyblion a staff sydd wrth wraidd cymuned yr ysgol. Mae arweinyddiaeth effeithlon a gofalgar y pennaeth trwy'r pandemig wedi rhoi tawelwch meddwl i staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun, i staff, a disgyblion. Caiff gefnogaeth dda gan yr uwch athro. Maent yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n dda at gydweithio effeithiol, ac yn arwain at ethos tîm cryf ymhlith staff. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i bob un o'r staff ddatblygu cyfrifoldebau arwain. Mae hyn yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol, sef ' Pob plentyn, pob cyfle, pob dydd' ('Every child, every chance, every day') yn cael ei gwireddu'n llawn yng ngwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent wedi datblygu prosesau priodol i werthuso'i pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn cael eu hymgorffori'n dda ac yn galluogi arweinwyr i nodi'n glir agweddau sydd angen eu gwella fwyaf. Er enghraifft, ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig, mae arweinwyr wedi nodi bod angen sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd mwy cyson o'u medrau rhifedd a'u medrau Cymraeg.

Ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad cryf ymhlith arweinwyr a staff i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi creu diwylliant diogelu cadarnhaol, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff yn cydweithio i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynllunio meddylgar a thra ystyriol yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus. Mae nodau tymor byr a thymor hir yn realistig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Mae hyn yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion proffesiynol y staff. Mae arweinwyr yn cadw adroddiad manwl am y gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cael eu mynychu gan staff, ac fe gaiff effaith y rhain ei mesur yn gywir i ddeall yr effaith ar ddisgyblion. Mae arweinwyr yn nodi arfer orau yn yr ysgol ac yn sicrhau bod aelodau staff eraill yn elwa arni. Er enghraifft, maent yn annog cydweithio ag ysgolion eraill i ddatblygu strategaethau i wella medrau digidol disgyblion, ac maent wedi dechrau rhannu a datblygu arfer broffesiynol mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau staff ar y cyd.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn llwyddiannus. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth, a'i heffaith ar ddysgu disgyblion. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif ar ran y gymuned leol yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwydydd a'r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac mae ganddo drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithlon ac yn defnyddio'r cyllid yn synhwyrol yn unol â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gyllid grant ychwanegol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a ddefnyddir yn ddoeth i ddarparu cymorth â ffocws i helpu ac annog dysgu a lles disgyblion. Mae staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu difyr sy'n cefnogi addysgu a dysgu ac yn cryfhau lles corfforol a meddyliol disgyblion. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o dir helaeth yr ysgol, sy'n cynnwys ardal goedwig ddatblygedig i ddarparu cyfleoedd ysgogol a chreadigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth bresennol yn yr awyr agored ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2 yn gyfyngedig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  10/02/2023